

Cofion

Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiwn yn arbennig am Elizabeth Jones (Groes) gafodd ei symud o'r Inffirmari i Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r wythnos ond sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn amdani a gweddiwn ei bod yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn ei hangen. Mae Kate Davies (Llansannan) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd ond yn gobeithio cael dod adref ddechrau'r wythnos, fel ag y cafodd Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) y penwythnos diwethaf. Diolchwn am y cadw sydd wedi bod arnynt, a chyflwynwn hwy yn ein gweddiâu i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.

LLANW

Tybed faint ohonoch fyddai â diddordeb petaem yn trefnu bws/bws mini o'r fro i fynd i Llanw fydd yn cael ei gynnal yng Nghricieth eleni rhwng Ebrill 6ed-10fed? Bydd oedfa yn cael ei chynnal am 10:00 y bore ac am 7:00 yr hwyr, gyda grwpiau bach a seminarau yn dilyn yr oedfaon, a gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y prynhawniau. Os oes gennych ddiddordeb i fynd draw ar un neu fwy o'r diwrnodau, a wnewch chi adael i Mair wybod **erbyn Mawrth 16eg**, os gwelwch yn dda, fel y gallwn wneud trefniadau ar eich cyfer? Mae'r amserlen lawn i'w gweld yn y daflen wybodaeth a anfonwyd i'r eglwysi ac ar y wefan: www.llanw.org.

I ddod

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** – Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinnel nos Lun, Mawrth 16eg am 7.30. Bydd David a Sarah Jones yn siarad am sut y mae dyddiau blin yn taro pobl leol y Rhyl. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng nghwmni Mrs Nia Royles, Trelawnyd yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Fercher, Mawrth 18fed am 7.30.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Ebeneser, Rhuddlan nos Iau, Mawrth 19eg. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a throsglwyddir y llywyddiaeth i'r Parch. Wayne Roberts.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Mawrth 2015

Darllenid y Dydd

Exodus 20:1-6

(BCND tud.68 / BCN: tud.62)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw wrth i Fawrth ddod i mewn fel llew! Roeddwn ar fy ffordd i'r Bala ddydd Llun i dderbyn hyfforddiant mewn swydd a mentro dros Pen Cefn, er mod i'n gweld y ffordd dipyn yn llithrig – eira a chenllysg wedi c'ledu. Ond mentro 'mlaen wnes i'n ddigon gwirion, er i mi stopio i asesu'r sefyllfa ger y tro am y mynydd. Peth da mod i wedi mynd ymlaen oherwydd mi roedd yna gar wedi mynd i'r ffos ar y tro wrth waelod y clip serth a chwpl mewn penbleth yn edrych am rifau ffon ar y ffôn symudol ond ddim yn siŵr chwaith pwy i'w ffonio. “I know a local farmer” medde fi mewn llawn hyder ffydd. A wir i chi, wedi troi yn fy ôl i Pant y Cefn, cael fod Eifion yn fodlon iawn ei gymwynas i lusgo'r car o'r ffos – tasg y mae wedi hen gynefino â hi dros y blynyddoedd! Ymlaen â fi i'r Bala – ond rownd trwy Bylchau!

Dangos y perygl mae'r Deg Gorchymyn sydd yn ein darllenid heddiw. Rhybuddion i ni sy'n tarddu o gariad Duw. Hen goel beryglus ac anghywir ydi honno sy'n dweud mai Duw cas ydi Duw yr Hen Destament ac mai Duw cariad ydi Duw y Testament Newydd. Cariad sydd tu cefn i'r gorchymynion hefyd a chymhelliad grasol Duw wrth eu rhoi i ni ydi y bydd y Gyfraith yn ein gyrru at Grist a'i groes. “Ffo am dy einioes, medde hi, at Fab y Dyn i Galfari.” (emyn William Jones) – oherwydd yno, fel y gwyddwn, mae cariad Duw yn ein cofleidio a'n hachub o ffos ein heuogrwydd a'r farwolaeth a ddylai ddod yn haeddiannol i ni fel cyflog i'n tor-cyfraith. (Rhufeiniaid 6:23)

Mae Duw yn gwybod nad ydi hi'n ddigon i'n rhybuddio. Dylswn i fod wedi bod yn ddigon call i droi'n ôl wrth weld yr eira – cymryd y rhybudd – ond wnes i ddim. “Mae'r galon yn llawn twyll” (Jeremeia 17:9) – yr hyder afresymol yna sydd ynon ni i gyd, am wn i, y byddwn ni'n iawn yn ein nerth a'n gallu ein hunain er fod yr arwyddion o'n cwmpas yn dweud yn blaen na fyddwn!

Wrth i ni addoli heddiw, beth am ryfeddu eto at ufudd-dod Iesu ac at gariad Duw yn rhoi Iesu i ni fel y byddai'r Ddeddf yn cael ei hanrhydeddu'n llawn ynddo fo, a'i holl addewidion yn cael eu rhoi yn rhad i ni yn ei haeddiant Ef! “I know a local farmer,” ia, ond beth am y gallu i ddweud ein bod yn adnabod Iesu sy'n abl i'n codi o'r ffos – a'i fod wedi codi myrdd o'r ffos? “Rwy'n gwybod am Fab y dyn ar Galfari – ac fe ddaw o i'ch helpu – mae wedi hen arfer!” yw'r neges fendigedig sydd gennym i'w rhannu a diolch am y cyfle i rannu'r neges honno gydag eraill heddiw eto.

Darllenid Wythnos Nesaf

Mathew 7:13-14 (BCND tud.7 / BCN: tud.7)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Iau – 12^{fed} • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 13^{eg} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 15^{fed} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.
- Mawrth – 10^{fed} Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 8.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 10^{fed} Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 12^{fed} Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Mawrth – 10^{fed} Cynhelir Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn ym Mheniel am 7.30 yng nghwmni Mrs Mair Roberts, Dinbych.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth – 10^{fed} Cynhelir Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn ym Mheniel am 7.30 yng nghwmni Mrs Mair Roberts, Dinbych.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yn Saron ac ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth – 10^{fed} Cynhelir Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn ym Mheniel am 7.30 yng nghwmni Mrs Mair Roberts, Dinbych.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00, ac yn Saron am 2.00 gyda'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Llun – 9^{fed} Bydd Cymdeithas Cefn Berain yn cyfarfod yn y capel am 7.30 pryd y ceir Sgwrs a Chân efo Robot Arwyn. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.